

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

8. Rheoli arian

8.13 Sut y dylid buddsoddi cronfeydd wrth gefn



Cyflwyniad

Pwyntiau allweddol ynglŷn â chronfeydd wrth gefn elusen

- Diffiniad y Comisiwn Elusennau o gronfeydd wrth gefn yw'r rhan honno o gyllid incwm digyfyngiad yr elusen sydd ar gael yn rhydd i'w wario
- Mae cyfraith elusennau yn ei gwneud yn ofynnol i wario unrhyw incwm y câi elusen o fewn cyfnod rhesymol ar ôl ei gael
- Rhaid dal y ddysgl yn wastad rhwng hyn ac angen yr ymddiriedolwyr i ddarparu ar gyfer buddiolwyr heddiw ac yn y dyfodol
- Mae cytuno ar lefel dderbyniol o gronfeydd wrth gefn yn rhan allweddol o'r cynllun ariannol cyffredinol i'r elusen ac yn dangos blaen-gynllunio a llywodraethu da
- Gall dal gormodedd o gronfeydd wrth gefn gyfyngu ar y swm y gellir ei wario ar waith elusennol ac effeithio'n niweidiol ar yr elusen a'i buddiolwyr
- Dylai fod gan ymddiriedolwyr bolisi cronfeydd wrth gefn a dylid ei adolygu'n rheolaidd
- Mae arweiniad y Comisiwn Elusennau [CC19: Elusennau a chronfeydd wrth gefn](#) yn rhoi arweiniad llawn ar gronfeydd wrth gefn, gan gynnwys y lefel y dylid ei dal ac am ba hyd y mae'n briodol i'w dal
- Mae SORP Elusennau (*Statement of Recommended Practice* y mae'n rhaid i bob elusen gydymffurfio ag ef) yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr gynnwys y canlynol yn eu hadroddiad blynyddol:
 - datganiad ynglŷn â'u polisi ar gronfeydd wrth gefn
 - lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir ac eglurhad pam maent yn eu dal
- Os oes gan elusen gryn gronfeydd wrth gefn, dylai'r ymddiriedolwyr ystyried a ellid buddsoddi rhan ohonynt, neu'r cronfeydd i gyd, er mwyn cael adenillion ariannol i'r elusen

Sut y dylid buddsoddi cronfeydd wrth gefn?

- Wrth ystyried buddsoddi'r cronfeydd i gyd neu ran ohonynt, mae angen i ymddiriedolwyr fod yn eglur ynglŷn â dibenion y cronfeydd wrth gefn
- Bydd natur gwaith yr elusen yn effeithio ar natur ei chronfeydd wrth gefn, e.e. Sefydliad sy'n gobeithio gwastatáu lefel y grantiau taladwy; neu gronfa wrth gefn ar gyfer gweithrediadau elusen sy'n darparu gwasanaethau

- Bydd diben y cronfeydd wrth gefn yn effeithio ar y ffordd y gellid eu buddsoddi'n briodol. Bydd angen i gronfa wrth gefn sydd ag oes fer (h.y. os yw'r ymddiriedolwyr yn bwriadu tynnu ar y gronfa yn y dyfodol agos), lle ni ellir mentro cyfalaf, ystyried a yw dal ecwiti (stoc a chyfranddaliadau) o fewn eu portffolio yn briodol (ac i ba raddau), gan y gallai ecwiti ddioddef amrywiadau tymor byr yn y gwerth cyfalaf a all niweidio gwerth tymor byr y buddsoddiad. Os yw'n ofynnol i gadw gwerth go iawn (ar ôl chwyddiant) y gronfa wrth gefn, yna efallai y gellid ystyried bod peth buddsoddi yn y farchnad yn briodol
- Wrth ystyried sut i fuddsoddi cronfeydd wrth gefn, efallai hoffai ymddiriedolwyr ystyried:
 - Unrhyw ofynion hylifedd
 - Y cyfnod amser y dylid buddsoddi'r cronfeydd wrth gefn
 - Lefel y risg buddsoddi maent yn fodlon ei derbyn
 - Yr amcan buddsoddi (er enghraifft, tyfu cyfalaf neu warchod cyfalaf)
- Mae arweiniad y Comisiwn Elusennau [CC14: Elusennau a materion buddsoddi: canllaw i ymddiriedolwyr](#) yn datgan bod yn rhaid i bob elusen sydd â rheolwr buddsoddi disgresiwn (h.y. rheolwr buddsoddi rydych wedi cytuno iddo gael disgresiwn llawn wrth wneud penderfyniadau buddsoddi ar eich rhan) fod â Datganiad Polisi Buddsoddi sy'n darparu fframwaith i wneud penderfyniadau buddsoddi. Dylai'r Datganiad Polisi Buddsoddi hwn fod yn gyson â'r polisi cronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u buddsoddi a'r rheini sydd heb eu buddsoddi yn cyd-fynd â'r cynllun ariannol cyffredinol
- Os oes gennych reolwr neu gynghorydd buddsoddi allanol, dylai allu'ch cynorthwyo i ddatblygu strategaeth fuddsoddi briodol ar gyfer eich cronfeydd wrth gefn
- Mae angen i ymddiriedolwyr sy'n ystyried buddsoddi gymryd sylw o'r canllawiau sydd yn yr arweiniad CC14: CC14: Elusennau a materion buddsoddi: canllaw i ymddiriedolwyr

Gwybodaeth bellach

CC19: Elusennau a chronfeydd wrth gefn

<https://www.gov.uk/government/publications/charities-and-reserves-cc19>

CC14: Elusennau a materion buddsoddi: canllaw i ymddiriedolwyr

<https://www.gov.uk/government/publications/charities-and-investment-matters-a-guide-for-trustees-cc14>

Cynhyrchwyd y daflen wybodaeth hon yn garedig gan Brewin Dolphin Limited:

www.brewin.co.uk/cardiff, ffôn 02920 340 100, ebost charitieswales@brewin.co.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Gall gwerth buddsoddiadau ac unrhyw incwm ohonynt ostwng ac mae'n bosib y cewch lai yn ôl na'r hyn a fuddsoddwyd. Er dibenion enghreifftiol yw'r wybodaeth uchod ac ni fwriedir iddi fod yn gyngor ar fuddsoddi nac yn gyngor cyfreithiol. Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu datganiad polisi buddsoddi a'u polisi cronfeydd wrth gefn yn ateb gofynion penodol eu helusen.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 19/03/2015



Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.org.uk